WOMEN'S HEALTH GROUP

bpas British Pregnancy Advisory Service

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 6 TACHWEDD 2019

12:00 – 13:30, YSTAFELL GYNADLEDDA A, TŶ HYWEL, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

YN BRESENNOL: Jenny Rathbone AC

YN MYNYCHU: Rachael Clarke (BPAS), Kate Bayliss (Aneurin Bevan), Amanda Davies (Bae Abertawe), Bronwen Davies (ARC), Jane Dickson (Aneurin Bevan), Rachel Gilmore (Cwm Taf), Angela Gorman (ARC), Vivienne Rose (BPAS), Caroline Scherf (Caerdydd a’r Fro), Suzanne Williams (Cwm Taf)

YMDDIHEURIADAU: Pauline Brelsford (ARC), Rosemary Cutmore (BPAS), Chris Newman (ARC), Helen Rogers (RCM), Alison Scouller (ARC), Debbie Shaffer (FTWW), Barbara Street (ARC), Alan Treharne (Hywel Dda), Sharon Vine (Cwm Taf), Olwen Williams (Betsi Cadwaladr)

## 1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Jenny Rathbone (JR) y cyfarfod a chyflwynodd y rhai oedd yn bresennol eu hunain.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MEHEFIN 2019

Eitem 6 – fe'i diwygiwyd i ddileu'r cyfeiriad at 'eitem sefydlog' yn diweddaru ar y cynnydd ynghylch erthyliad a rhoi 'grid gweithredu' yn ei le a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer pob cyfarfod.

## 3. MATERION YN CODI

Llythyr oddi wrth Cwm Taf ynghylch: hunan-atgyfeirio – RC i ddosbarthu’r llythyr oddi wrth Cwm Taf ynghylch: hunan-atgyfeirio. Adroddodd Rachel Gilmore fod bron pob atgyfeiriad yn y bwrdd iechyd bellach yn hunanatgyfeiriad. Soniodd Suzanne Williams am effaith Adolygiad Cenedlaethol y Grŵp Trawsbleidiol a alluogodd y tîm erthyliad i ddadlau dros gyflwyno hunan-atgyfeirio ar unwaith.

Llythyr gan Vaughan Gething – Roedd y grŵp wedi cael ymateb gan Vaughan Gething i’r llythyr a anfonwyd ynghylch yr Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Erthylu. Cytunwyd y byddai RC yn llunio ymateb drafft y bydd Jenny Rathbone yn ei anfon oddi wrth y Grŵp Trawsbleidiol yn mynd i'r afael ymhellach â'r mater o lofnodi ffurflenni HSA1 o bell ac amseroedd aros.

## 4. CANLLAWIAU GOFAL ERTHYLU NICE

Trafododd y grŵp agweddau allweddol ar Ganllawiau Gofal Erthylu NICE a gyhoeddwyd yn ddiweddar mewn perthynas ag arfer gorau mewn gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol. Cafodd llawer o

argymhellion NICE eu codi hefyd yn yr Adolygiad Gwasanaeth Cenedlaethol yn gynharach yn y flwyddyn – yn enwedig:

- 1.1.4 – ystyried cynnig arian ymlaen llaw ar gyfer teithio a llety i ferched y mae angen iddynt deithio i gael gofal
- 1.1.6 - cynnig asesiad o fewn wythnos i'r cais, erthyliad o fewn 1 wythnos ar ôl yr asesiad
- 1.3.2 - peidio â chynnig proffylacsis gwrth-D i ferched sy'n cael erthyliad meddygol hyd at, a gan gynnwys, 10+0 wythnos o feichiogrwydd
- 1.3.2 - cynnig dewis rhwng erthyliad meddygol neu lawfeddygol hyd at, a gan gynnwys, 23+6 wythnos o feichiogrwydd
- 1.7.1 - ystyried erthyliad cyn bod tystiolaeth uwchsain bendant o feichiogrwydd mewngroth ar gyfer menywod nad oes ganddynt arwyddion na symptomau o feichiogrwydd ectopig

Pa mor hawdd yw cael mynediad. Ailadroddwyd yr angen am gyllid ymlaen llaw ar gyfer menywod yr oedd angen iddynt deithio y tu allan i'w Bwrdd Iechyd Lleol i gael triniaeth, gydag adroddiadau bod rhai menywod yn parhau â'u beichiogrwydd gan nad oeddent yn gallu fforddio teithio.

Lleihau amseroedd aros. Adroddodd Jane Dickson fod Marie Stopes (sy'n darparu yn Lloegr ond nid yng Nghymru) yn tueddu i gyrraedd targedau amser aros o 7 diwrnod, gan ddefnyddio asesiad cychwynnol dros y ffôn. Adroddwyd hefyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried cyflwyno amseroedd aros fel dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer iechyd rhywiol.

Lleoliad gwasanaethau. Codwyd pryderon y gallai lleihau amseroedd aros wneud amrywiaeth lleoliadau yn anoddach oherwydd gallai fod yn fwy effeithlon gweithio mewn un lleoliad. Gallai newidiadau i ymarfer i atal sganiau uwchsain i rai cleientiaid wneud gwahanol leoliadau yn fwy hyfyw.

Proffylacsis gwrthfiotig a gwrth-D. Soniwyd bod y canllawiau terfynol yn wahanol i'r canllawiau drafft o ran proffylacsis yn ystod triniaethau llawfeddygol, a thrafodwyd canlyniadau cleifion ar gyfer gwahanol drefnau.

Dewis triniaeth. Trafodaeth ar ba ddewis sydd ar gael ar gyfer triniaethau yng nghanol yr ail dymor yng Nghymru. Dangoswyd pryder y gallai cynyddu nifer y triniaethau sydd ar gael effeithio ar gyllidebau clinigau, a bod diffyg cymhelliant ariannol i reolwyr gefnogi cynnydd mewn llawdriniaethau oedran beichiogrwydd.

Erthyliad cyn cael tystiolaeth uwchsain ddiffiniol. Roedd Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe eisoes yn darparu gwasanaethau cyn cael tystiolaeth uwchsain bendant.

Paratoi'r groth.

Gwella mynediad at ddulliau atal cenhedlu. Darperir dulliau atal cenhedlu fel rhan o wasanaethau erthylu ledled Cymru. Holwyd ynghylch argymhellion ychwanegol ar gynghori menywod y gallai defnyddio'r chwistrelliad atal cenhedlu pan rhoddir mifepristone leihau effeithiolrwydd y drefn EMA, o ystyried ansawdd y data ategol a'r effaith ddilynol ar gyfraddau derbyn ar gyfer y pigiad atal cenhedlu.

## 5. CYFARFODYDD NESAF A'U FFOCWS

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar ofal endometriosis.

Y cyfarfod nesaf: Chwefror 2020, i'w gadarnhau